# DINESYDD


**Mawrth**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 104


# TACSI O'R TYWYLLWCH



Braf oedd gweld Macsen nol yn siglo ar y siglen yn y Mayfair (Top Rank) yn ddiweddar. Bu'r byd roc yng Nghymru yn go llwm yn ystod y flwddyn a aeth heibio ar ol alltudiaeth gorfodol Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr.

Penderfynnodd Cymdeithas yr Iaith roi Geraint a'i fand ar y blaclist am eu bod, yn eu tyb nhw, yn cefnogi Gwyl Cestyll '83. Gwadodd Geraint Jarman hyn o'r cychwyn - roedd sioe y Mabinogi yn gynhyrchiad annibynnol llwyr gafodd ei llwyfanu gyntaf ddwy flynedd ynghynt. Ond oherwydd styfnigrwydd dall rhai penboethiaid yn Aberystwyth, nid oedd cyfle i weld y band safonol hwn.

Ychydig iawn o fandiau safonol proffiesynol eu hagwedd a'u chwarae sydd yna yng Nhgymru. Byrhoedlog iawn yw bandiau'r Colegau a'r Ysgolion. Ond mae Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr wedi para ar hyd y blynyddoedd yn goroesi sawl to o stiwdants.

Roedd ei berfformiad yn y 'Mayfair' yn gabolegid ac yn sgleinio. Doedd neb yn disgwyl llai na hyn gan bod pawb yn gwybod am safon uchel y band. Gobeithio'n wir y cawn weld Geraint Jarman ar lwyfannau Caerdydd a Chymru yn amlach yn y dyfodol agos. Beth am goncro Neuadd Dewi Sant, ar ol i'r Ceffyl Pren garlamu drwy'r neuadd.

# GOLYGYDDOL

Yn hanes bywyd Cymraeg y ddinas dros y blynyddoedd mae lle anrhydeddus i gyfraniad y canolfannau seciwlar, er i'r capeli, efallai, ddwyn mwy na'u siâr dyledus o'r clod. Yn anfwriadol, wrth gwrs.

Tŷ'r Cymry yn Gordon Road yw'r hynaf o'r rhai sy'n dal i fynd, mae'n debyg.

Yr ieuengaf yw Clwb Ifor Bach. Onid yw'n syndod fel y mae wedi ennill ei blwyf? Gwelir tipyn o bawb a phob un yn taro ei drwyn i mewn yno yn ei dro, boed i bwyllgora, i fwyta, i gael gwers Wyddeleg, i chwysu peintiau mewn disco neu i lyncu peintiau wrth y bar. Dow'r rhan fwyaf, mae'n ymddangos, i ymlacio gyda diod a chlonc.

 ninnau mor hoff o ymgecru mae'n syndod fel mae'r lle wedi ennill ei blwyf. Bu hyd yn oed y lleisiau dirwest cyfarwydd yn dawel hyd yma. Gobeithio nad aros eu cyfle y maent.

Yn y cyfamser beth yw effaith y llwyddiant hwn ar y canolfannau eraill? Mae apel Gwilym Roberts yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd yn dangos y diffyg cefnogaeth fu i Ganolfan Addysg Glantaf. Aeth llawer o ddysgwyr Canolfan yr Urdd hwythau i Ifor Bach i loywi eu hiaith gyda help hylif.

Bu cysylltiad rhwng y ddiod gadarn a Chanolfan yr Urdd erioed. Diffyg bar yn gwneud rhai yn hwyrfrydig i ddefnyddio'r lle. Eraill - rhieni gan mwyaf - yn gofidio nad oedd mynychu'r Ganolfan yn aml yn ddim ond esgus i'n pobl ifanc sleifio i dafarn gyfagos. O edrych ar hyn o du'r bobl ifanc, 'roedd yr anturiaethau anghyfreithlon ac adolesent hyn o leiaf yn cael eu cyplysu gyda'r iaith Gymraeg. Mae cenhedlaeth yn codi na chaiff yr un fraint, mae'n ymddangos. Bu stori ar led i Ysgol Uwchradd Glantaf wahardd ei myfyrwyr rhag mynd i ddisgos yng Nghlwb Ifor Bach, am nad oedd yr athrawon yn hoffi i'r plant eu gweld yn yfed! Diau y caiff y plant ddal i fynd i'r un capeli â nhw, gan nad yw cael y rhai tan eu gofal yn eu gweld yn gweddïo yn peri cymaint o gymhlethdod iddynt!!

Gyda Chlwb Ifor Bach yn ateb sawl galw na foed inni anghofio y cyfleusterau eraill sydd yn dal ar gael. Gydag ysbryd, egni a charedigrwydd amcan a gweithred fe ddylai fod digon ohonom i roi llewyrch ar amrywiaeth o ganolfannau, o Womanby Street, i Conway Road i Heol Gordon.

Efallai y gall yr un ysbryd ymestyn i un neu ddwy o heolydd cyfarwydd eraill y ddinas yn ogystal. Pwy a ŵyr?

# Y CALENDR

MAWRTH

9fed: Cymrodorion: Cyngerdd gan blant ysgol Glantaf yn yr ysgol am 7.15pm.

10fed: Eisteddfod yr Urdd 1985 Gwledd Canol Oesoedd yn Neuadd Goffa Rhiwbeina nid Clwb Ifor Bach.

15fed: Cymdeithas Rieni Bro Eirwg a chylch chwarae Llanrhymni: Noson gyda Meredydd Evans yn ysgol Bro Eirwg o 8pm tan 11.30 Tocynnau: £1.50 o'r ysgol neu ffoniwch 497309

19eg: Cymdeithas Hanes Clwb Ifor Bach. Dr Harri Pritchard Jones. Freud-ei fywyd a'i waith. 8pm.

30ain: Ysgol Feithrin y Waun Noson gymdeithasol yn y Cedars, Llanishen gyda Gari Williams am 8pm. Bwffe a bar tan 12. Tocyn: £5.50 (498928)

EBRILL

2il: Cylch Cinio Cymraeg Gwesty'r Parc am 7.30pm gyda'r Arglwydd Gwilym Prys Davies.

2il: Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys: Noson o Hwyl a Sbri.

6ed: Cymrodorion Caerdydd yn ymweld a Chymrodorion Aberdar.

7fed: Cymdeithas Rieni Bro Eirwg Gwerthiant o gefn ceir yn Ysgol Bro Eirwg o 2pm-4pm

10fed: Ffair Sborion yn Salem Canton am 11am. Elw i Ysgol Feithrin Llandaf.

O LAWR I LAWR
(i gofio'r gem yn erbyn Cardiff Express Lifts)

Mae'r stori yn anhygoel,
Gwrandewch, clustfeiniwch nawr
Roedd "Byd y Bel" yn wallgo'
A "Grandstand" yn ferw mawr.
Roedd tim yr Aelwyd yn eu bri
Yn pwyso ar y botwm tri.

* * * * * *

Rhai gwyllt heb golli unwaith
Oedd gelyn y gwyrddion hoff
Rhai ar y brig i'w curo
Llawn hyder heb un cloff.
Roedd tim yr Aelwyd yn eu bri
Yn pwyso ar y botwm tri.

* * * * * *

A'r ben yr awr a hanner
Roedd crib y criw ar dro
Tair gol i'r gwyrddion hoffus
A dwy i'r Liffts - hen dro.
Roedd tim yr Aelwyd yn eu bri
Yn pwyso ar y botwm tri.

* * * * * * * *

Dair gôl o draed y cewri
I Ragn a Cen, (ein taid)
I Martin Hopwood hefyd
Cofnodi hyn sydd rhaid.
Roedd tim yr aelwyd yn eu bri
Yn pwyso ar y botwm tri.

* * * * * *

A'r golwr chwimwth hefyd
Yn arbed o'r smotyn gwyn
Yn taflu'i hun yn gyflym
Yn gawr mawr erbyn hyn.
Roedd tim yr aelwyd yn eu bri
Hei lwc i'r bechgyn, ymlaen
a chi!!

* * * * * * * *



CANOLFAN OEDOLION GLANTAF.

Ble mae'r cannoedd o Gymry Cymraeg y ddinas yn treulio eu horiau hamdden? - nid yng Nghanolfan Oedolion Glantaf mae hynny'n sicr gan fod mwy o ddysgwyr yr iaith yn cefnogi'r Ganolfan ar hyn o bryd nag o Gymry Cymraeg. Mae hyn yn drueni mawr gan fod yr Awdurdod wedi canoli cyrsiau drwy'r Gymraeg yng Nglantaf gan obeithio creu awyrgylch Gymreig a Chymraeg yn y lle. Ceir dosbarth cadw'n heini i ddynion dan arweiniad Lyn Davies a dosbarth yoga gan Valmai Evans. Hefyd mae dosbarth teipio yn Gymraeg dan arweiniad Gwenda Ellen Williams ac mae Dr. Meredydd Evans yn cynnal dosbarth barddoniaeth dan nawdd Adran Efrydiau allanol y Brifysgol. Mae'r Ganolfan yn methu cynnig mwy o gyrsiau amrywiol oherwydd diffyg cefnogaeth y Cymry. O safbwynt cyrsiau dysgu Cymraeg ceir dosbarth Cymraeg I a II ar Nos Lun dan arweiniad Judith Lewis a Gwilym Roberts, tra ar yr un noson mae Jac Davies yn cynnal dosbarth paratoi at wneud safon A yn Gymraeg, ac yna ar Nos Fercher mae dosbarth Cymraeg I eto dan ofal Elizabeth Prosser Morris. Mae nifer o ddosbarthiadau Saesneg eu hiaith yn cael eu cynnal yno hefyd, ond ble ar wyneb y ddaear mae'r holl Gymry Cymraeg?

Beth am ddod i'r Ganolfan fis Medi nesa' ac ymuno ag un o'r dosbarthiadau a gynigir. Cewch fudd a chwmni eich cyd-Gymry mewn awyrgylch hapus a chroesawgar. Pennaeth y Ganolfan ydy Ann Evans sy'n enedigol o Landisilio, yn yr hen Sir Benfro ac Yvonne Morgan ydy'r dirprwy bennaeth, a hithau yn enedigol o Langennech yn yr hen Sir Gaerfyrddin.

Felly, beth amdani nawr ym mis Medi? Trueni fuasai gweld y Ganolfan yn gorfod rhoi'r ffidil yn y to i gynnig Cyrsiau drwy'r Gymraeg. Dewch yn lluoedd i sicrhau llwyddiant y fenter hon!

GWILYM ROBERTS.

Anfoner pob deunydd ar gyfer rhifyn mis Ebrill at y Golygydd, 139 Fairwood Road, Llandaf erbyn Mawrth 19eg.

Carai'r Dinesydd ddiolch am gymorth hael y Swyddfa Gymreig a Chymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru.

# COLOFN SHÂN

Yda chi wedi meddwl erioed, pa mor gymhleth ydyw ymwneud ni â chyfeillion a chydnabod? Mae'r natur ddynol ynddo ni i gyd, ac eto'r peth rhyfedd ydy, nad yda ni bob amser yn cofio hynny yn ein hymwneud â'n gilydd.

Wn i ddim a fydd y golofn hon yn gwneud unrhyw synnwyr i'r darllenydd a'i peidio, gan mai rhyw feddwl yn uchel ar bapur yr ydwi, a hynny mewn ffordd digon anisgybledig, "Mae gan bawb 'i deimlad" medda ni. Oes, a'r gamp ydy bod yn sensitif i deimladau pobol eraill. Daw llais y natur ddynol wedyn a galw "ond mi fasa'n braf petae pobol eraill yn sensitif i'n teimladau ni"! Y diffyg sydd ynom ni gyd ydy methu sylweddoli'r cyfrolau sydd y tu ôl i ambell sgwrs. Yn amal, y peth pwysica' ydy'r hyn y mae pobol yn ymatal rhag ei ddweud.

Pan ddois i yma i fyw dros ugain mlynedd yn ôl, yn · adnabod neb, cofiaf gyfarfod a gwraig yn yr Eglwysnewydd, gwraig ddi-Gymraeg, a'm gwahoddodd i goffi ar ôl sgwrs fer mewn arch farchnad. Chwara' teg iddi, fe synhwyrodd fy mod i, ac Elin yn y pram, yn unig, a dyna dybia i a'i symbylodd i wahodd dieithriaid llwyr i'w thŷ am baned. "What time shall I come?" medda finna "About eleven" medda hitha. I'r rhai ohonnoch sy'n f'adnabod, 'roedd Elin a minnau'n barod i guro'r drws am ddeg! Heb fedru ymatal rhagor, dyma ganu'r gloch tua chwarter i unarddeg, ac fe dywyswyd Elin a minnau i barlwr yn Alfreda Road. Aeth y wraig drwodd i'r gegin, ac mae'n amlwg bod ganddi gwmni yno - a dyna i chi beth a glywais. "She's quite odd you know, but somehow I feel sorry for her"!

Yn rhyfedd 'chi, wnes i ddim "teimlo" na chael fy mrifo. Ond oedd ein cefndir ni mor wahanol i'n gilydd, a phan ymddangosodd y coffi, fe werthfawrogais ei chymwynas yn fawr, gan feddwl i mi fy hun "Tydwi'n synnu fawr 'i bod hi'n meddwl fy mod i yn greadures od.

Wedi adrodd yr hanesyn bach yna, yr hyn sydd yn fy nhristau ydy bod 'na enghreifftiau o bobol sy'n adnabod eu gilydd yn dda iawn, ac eto pan fo gwahaniaeth barn rhyngddynt, yn methu, neu yn gwrthod synhwyro greddf a natur y rhai sy'n credu'n wahanol iddynt.

Pan fo dadl chwyrn yn y gwynt - be' mae rhywun yn 'i wneud? Dangos ei ochor a gwneud gelynion o hen ffrindiau, neu gau ceg a derbyn cyhuddiadau o fod yn ddi-hid? Wn i ddim be ydy'r ateb. O'm rhan fy hun, mae bywyd mor broblemus a chymhleth, a dim ond hyn a hyn all rhywun ymgymeryd ag o. Felly, o fwriad da, medd fy natur ddynol i, neu o lwfdra, medd natur ddynol eraill - fy hanes i ar y funud yw, chwedl Idwal Jones.

"Rwy'n eistedd ar ben llidiart, a meddwl beth i'w wneud".


CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

CLWB IFOR BACH

MAI 3ydd am 7.30


## YN EISIAU

YSGOL FEITHRIN LLANDAF.

YN EISIAU: Athro neu athrawes rhan-amser. Tri phrynhawn yr wythnos o 1 p.m. tan 3 p.m. yn dysgu plant rhwng 2½ a 3½ oed. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Celia Parri, ffôn:- Caerdydd 396681.

# GAIR O'R POST

Annwyl Syr,

CAWS CAERFFILI.

Gynt, 'roedd bywoliaeth dosbarth arbennig o ffermwyr ym Morgannwg yn dibynnu, i raddau helaeth iawn, ar gynhyrchu caws. Yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf ac ymlaen i ddechrau'r ganrif hon, byddai'r ffermydd bach ym Mlaenau Morgannwg yn cynnal rhwng dwsin ac ugain o wartheg godro er mwyn medru gwneud cyflenwad da o gaws drwy fisoedd y gwanwyn a'r haf. Defnyddid y llaeth yn ei wres naturiol, yn union ar ôl godro, i'w droi'n gaws meethlon. 'Roedd galw mawr amdano ar draws y sir, ac fe'i ceid ar werth yn y siopau neu'r farchnad leol. Dros y blynyddoedd, tyfodd y fasnach gaws ar farchnad Caerffili i'r graddau bod y caws, yn ei dro, wedi mabwysiadu enw'r dref ei hun. Yn ogystal â'r farchnad wythnosol, cynhelid ffeiriau caws yno ar ryw un dyddiad arbennig ym mis Ebrill, Gorffennaf, Awst, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

Byddai'n bosibl i berchenogion siopau groser yn nhref Caerffili ac yn y pentrefi cyfagos brynu caws yn uniongyrchol oddi wrth y ffermwyr lleol. Ar y llaw arall, teithiau'r masnachwyr o'r trefi diwydiannol gryn bellter i fynychu'r farchnad a phrynu cyflenwad da ohono bob wythnos gan gymaint oedd y galw amdano. Dibynnai'r glowr ar gael darn da o gaws Caerffili yn ei focs bwyd bob dydd - 'roedd yn rhan hanfodol o'i gynhaliaeth.

Amrywiadau o'r un caws oedd caws y gwcw a chosyn saj; fe'u gwneid ar y ffermydd ar gyfer cwsmeriaid arbennig, yn ôl y galw.

Ar hyn o bryd 'rwy'n ymchwilio i hanes caws Caerffili ac yn ceisio gwybodaeth perthnasol ynglŷn â'i gynhyrchu, ei werthu, a'i fwyta. Os oes gennych unrhyw wybodaeth neu atgofion am gaws Caerffili, byddaf yn ddiolchgar os dowch i gysylltiad â mi yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. O ddiddordeb arbennig y mae enwau'r ffermydd a fu'n cynhyrchu'r caws hwn, enwau'r bobl a fu'n cynnal stondinau i'w werthu ar y farchnad, enwau siopau a fu'n ei werthu, hen luniau, llyfrau cyfrifon, ac yn y blaen. Byddaf yn ddiolchgar am bob llygedyn o wybodaeth er mwyn cofnodi hanes y caws Cymreig enwog hwn yn gyflawn.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

S. Minwel Tibbott (Mrs.)
Is-Geidwad,
Adran Bywyd Cartref a Sefydliad,
Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan,
Caerdydd.
CF5 6XB.

---

CWRS I DDYSGWYR

Cynhelir cwrs i Ddysgwyr Cymraeg ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd. Cwrs Cerdded Eryri o'r 4ydd i'r 7fed o Fai. Fe fydd yn benwythnos bywiog o gerdded a siarad yng nghwmni Merfyn Williams, tiwtor y ganolfan a Gwilym Roberts, Caerdydd. Pris: £45.36 ac mae hyn yn cynnwys cinio, gwely a brecwast a lluniaeth canol dydd. Bargen o gwrs ac mewn ardal fendigedig. Chi ddysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, beth amdani? Anfonwch am fanylion at Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd.


## Clerc - Adran Trefnu Rhaglenni

Mae arnom angen clerc i weithio yn yr Adran Trefnu Rhaglenni yn ein Canolfan Deledu yng Nghaerdydd.

Mae angen Cymraeg o'r radd flaenaf ar gyfer y swydd hon - yn llafar ac yn ysgrifenedig - gan y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gysylltu ag S4C a throsglwyddo manylion am raglenni Cymraeg y cwmni ar gyfer eu cyhoeddi yn SBEC, cylchgrawn rhaglenni i sianel, yn ogystal â threfnu cynhyrchiadau HTV yn yr adran trefnu rhaglenni. Mae'r gallu i deipio yn angenrheidiol.

Cyflog, gan gynnwys atodiadau, £6,115 y flwyddyn.

Dylai ymgeiswyr cymwys anfon am ffurflen gais, gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig, a nodi cyfeirnod DI/306 i'r Rheolwr Personel, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV


YR AGORIAD.
"Un Geg arall i'w bwydo"

gan Leigh Verrill-Rhys.

Eleni eto mae'r llywodraeth wedi codi cyflog y Frenhines ond yn wahanol i'r llynedd, lleihawyd pensiwn yr henoed. Cyhoeddwyd fod Wee Wili Wels yn disgwyl brawd neu chwaer ym mis Medi ac fe aeth Tywysoges Anne i Gambia dros Gronfa Achub y Plant. Bu farw plentyn o flaen y camerau yn Ethiopia ac fe godais i'r budd-dal plentyn ar gyfer ein mab.
Fel na roedd mis Chwefror. Llawn plant ac anghyfiawnder. Rhywsut mae'r llywodraeth yn gallu cyfiawnhau dwgyd punt oddi wrth y rhai sy'n byw o geiniog i geiniog ac ar y llaw arall rhoi miloedd o hunnoedd i rywun sydd eisoes yn byw yn foethus. Tybed sut mae'r Frenhines yn cyfiawnhau ei gwisgoedd sidan wrth wynebu bobl tlawd.
Does dim byd da fi yn erbyn baban bach newydd ond pam y stwr mawr yma yng Nghymru? Mae'r cyfryngau wedi bod yn ein haflonyddu ers y Nadolig gyda'r holl dybio yma er nad oes gan deulu Wili Wels yr un cysylltiad Cymreig hyd y gwelaf i.
Wrth i rieni Wili Wels gynyddu poplogaeth Lloegr mae ei fodryb yn creu llawenydd ymysg pobl Gambia yn ol y gohebyddion. Ar y newyddion mae Anne yn edrych yn ffres ac mae pobl Gambia yn ymddangos yn hapus, ond eto wn i ddim sur mae'r dywysoges yn methu gweld bod angen cryn dipyn mwy na ei ewyllys da i wella eu bywyd nhw.
Ac yn olaf roeddwn i'n magu fy mab ar fy nghol y noson pan ddaeth adroddiad o Ethiopia bod llywodraeth America yn gwrthod rhoi cymorth i'r ffoaduriaid gan fod llywodraeth Ethiopia yn gomiwnyddol. Fe dorrodd fy nghalon wrth weld y fam a'i phlentyn yn y llwch gyda chamerau Prydain yn darlledu ei thristwch dros y byd.
Rhag fy nghywilydd i boeni am brynu gwisg newydd i'r baban gyda'r budd-dal.
Rhag ein cywilydd ni am wneud arfau gwleidyddol o ddioddefaint plant.

GEIRFA
anghyfiawnder: injustice
cyfiawnhau: to justify.
aflonyddu: to harass.
cynyddu: to increase
ffoaduriaid: refugees
dioddefaint: suffering.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Y GOLOFN GAIN gan Arfon.

Croeso mawr i'r Dr. Alun Ogwen i'r golofn y tro hwn. Ar ôl bod yn dysgu yn Rhydfelen am flynyddoedd fe'i penodwyd i swydd gyda'r Cyd-bwyllgor Addysg, ac ymddeoliad un o'i gyd-weithwyr yno a symbylodd y deyrnged gabol hon ganddo. Bu'r Cymro twymgalon Vernon Howell yn cynorthwyo wrth baratoi'r rhestrau termau technegol, tapiau ar gyfer arholiadau llafar a fersiynau Cymraeg y papurau arholiad ymhlith pethau eraill. Yn ogystal â hyn mae diolch plant a rhieni Cymru yn ddyledus iddo am ei waith ym Mudiad Rhieni'r Ysgolion Cymraeg ar hyd y blynyddoedd. Eto nid yw wedi ymddeol yn llwyr. Mae'n defnyddio'i brofiad a'i ddawn o hyd gan gynnig gwasanaeth cyfieithu.

I VERNON HOWELL

Ger Llandaf mae'r hen afon - yn wylo
O waelod ei chalon;
Ac o'r hesg daw oergri hon
A'i hirnad, 'Collwyd Vernon'.

Pwy i'n hoes, heb hwn, a esyd - astrus
Restrau'n ddifrycheulyd?
Pwy ynghylch rhoi tâp ynghyd
A saif i'r oesau hefyd?

Fe roddai siâp ar frawddeg; - ail-lunio'r
Proflenni'n ddi-Saesneg;
Trwy ddirnad gwall gramadeg
Paratôi bapurau teg.

Bydd Megan yn cyfrannu - i'w heddwch
Yn nyddiau'r hendrefu.
Rhodded Duw i'r ddau a'u tŷ
Haul Hydref yn pelydru.

ALUN OGWEN.

Diolch yn fawr i'r Dr. Ogwen, a'n dymuniadau gorau i Mr a Mrs Howell hefyd.

# "WINE NOT"

Un arall ar y blaclist - na, nid diddanwyr yn Ne Affrica, ond y siopau yng Nghaerdydd sy'n gwrthod derbyn sieciau Cymraeg. Clywsom yn ddiweddar am ymwelydd a'r brifddinas fu'n prynu gwin yn y Continental Wine Shop yn Bellfield Rd. Gwrthodwyd ei siec Cymraeg gyda sylwadau anhleserus hefyd. Gwnaeth yr ymwelydd y peth call sef gadael y siop heb y nwyddau - eu colled nhw yn y pen draw. Cofiwch, os ydych chi'n gwybod am siopau eraill sy'n ymdóʷyn yn yr un modd, dywedwch hynny wrth y Dinesydd.




# GAIR O'R POST

7 Melrose Ave.,
Pen-y-lan,
Caerdydd.

Annwyl Gyfeillion,

A gaf drwy'r Dinesydd ddiolch yn fawr iawn am garedigrwydd di ben draw a dderbyniais yn ystod (salwch) gwaeledd hir Miss Lyndreth, hoffwn ddiolch yn arbennig i'n Gweinidog, i'r meddyg, nyrsys, a chymdogion, ac am y gofal a'r cysur a gefais gan ffrindiau yn ystod yr angladd ac wedyn.

Diolch mawr iawn,

NANS JONES.

TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

Min nos Iau, Chwefror 23ain ac mae hi'n chwarter i hanner nos a'r Dinesydd ar fin mynd i'w wely. Edrychiad cyflym trwy'r tudalennau cyn cau pen y mwdwl a sylwi fod yna le gwag ar waelod un dudalen. Doedd dim byd i'w wneud felly ond ei lenwi hefo'r pwt bychan yma o eglurhad. Nos da.

# Y SILFF LYFRAU

Dafydd Islwyn HYDREF Y RHOS

Tŷ ar y Graig £2.50

Corrisa Jôs YSGRIFE'R RANDIBŴ

Y Lolfa £1.95

Enid Wyn Baines MAE'R DALL YN GWELD Tŷ ar y Graig £3.00

Rhiannon Ifans SERS A RYBANA

Gwasg Gomer £7.95

Atgofion bachgendod yn ardal Rhos-cefn-hir ar Ynys Môn a geir yn 'HYDREF Y RHOS'. Y cyfnod yw 1950-1964 a'r themâu-colli cymeriadau, colli crefftau, a chymdeithas hynod yn araf ddatgymalu. 'Sgwenna'r awdur yn ôl ei argraffiadau ar y pryd. Rhwng 10 a 13 oed cawn res o enwau cymeriadau, tyddynod, a chaeau, ond erbyn cyrraedd ei arddegau mae'r awdur yn medru dirnad yr hyn a wêl gan gyfleu i'r darllenydd ei ing o weld y gymdeithas yn chwalu o flaen ei lygaid - 'ac yn mynd yn noeth fel coeden yr hydref'.

Mae 'YSGRIFE'R RANDIBŴ' yn gasgliad o gyfraniadau'r 'diweddar' Corrisa Jôs i'r Blewyn Glas, papur bro Dyffryn Dyfi. 'Roedd ganddi farn ar bob pwnc ac fe gyflwynai honno yn ei hiaith a'i bratiaith ddihafal ei hun - tafodiaith gyfoes yn ôl y broliant! Daw'r hiwmor yn bennaf o gamddefnyddio'r Saesneg a'r unigolion sy'n cyflawni hynny! Mae dychan yr awdur yn ddeifiol ar brydiau wrth drafod pynciau llosg gwleidyddol ac 'roedd digon o'r rhieni yng Nghymru rhwng 1978 a 1982, sef 'ei chyfnod'. Fel y buasai Corrisa ei hun yn eu ddweud, 'Meni a triw wyrd is spôcen in jest'.

Cefais bleser mawr o ddarllen y llyfr 'MAE'R DALL YN GWELD', sef stori bywyd Arthur Rowlands. Mae digwyddiadau un noson o Awst ym 1961 ar Bont-ar-Ddyfi, a hanes 'hela' Robert Boynton yn y bryniau o gwmpas yn adnabyddus i'r mwyafrif bellach. Ailadroddir y digwyddiadau cynhyrfus hyn ond mae llawer mwy yn y llyfr hwn. Cawn yma hanes bachgendod Arthur Rowlands yn ardal Penllyn a chip ar y gymdeithas a fowldiodd gymeriad y darpar blismon. Wedi'r saethu, cawn ei hanes yn ymdopi â'i ddallineb a'r modd y medrodd droi y fath anhap i'w fantais. Mae'r stori yn un hynod ac mae Enid Wyn Baines yn adroddwraig ragorol.

Llyfr arbenigol yw 'SERS A RYBANA' sy'n ymdrin â'r traddodiad o ganu gwasael yng Nghymru. Fe gysyllta'r awdur yr arfer hwn o fynd o gwmpas i ddymuno iechyd a llawnder â chwe achlysur. Cawn ddisgrifiadau manwl o'r Fari Lwyd, Hela'r Dryw, Calennig, Canu Mair ar Chwefror 2, y Nadolig, a Chalan Mai ynghyd â chrynodeb o gyfeiriadau hanesyddol wrth geisio olrhain y traddodiadau hyn. Mae'r llyfr, a'r traethawd doethuriaeth oedd yn sail iddo, yn gyfraniadau pwysig i Astudiaethau Llên Gwerin. Cyfeirir y darllenydd at amrywiol ffynonellau. I'r darllenydd cyffredin mae'r llyfr yn llawn o wybodaeth am rai o arferion mwyaf lliwgar a hynod ein gwlad.

IEUWYN VAUGHAN JONES.

Emily Huws Cyfres Criw Crawiau

Gwasg Gomer £1.10 yr un.

8 LAR CRIW CRAWIAU

9 COBLCERTH CRIW CRAWIAU

10 CRIW CRAWIAU AR Y CREIGIAU

Mae'r tair cyfrol uchod yn dod â'r gyfres boblogaidd hon, ar gyfer plant 7-9 oed, i ben. Yr hyn sy'n digwydd yw bod criw o blant sy'n byw yn rhai Crawiau yn cael cyfres o anturiaethau.

Stori ddirgelwch a geir yn y gyfrol gyntaf. Pwy yw'r dynion amheus sy'n ymddiddori mewn car coch a fu mewn damwain? Mae cynllun amlwg i'r stori a'r awdur yn egluro popeth. Ni all y merched wahaniaethu rhwng un car a'r llall. Does gan y bechgyn ddim diddordeb mewn mwclis. Mae'r dynion drwg yn amwlg ddrwg. Yn fyr, mae'r cyfan yn ystrydebol.

Mae fel petai dwy stori wahanol yn yr ail gyfrol, ac injan dân yn eu cysylltu. Yn gyntaf mae to sied yn mynd ar dân, yn ail mae llew yn dianc o syrcas deithiol. Mae campau'r eliffant tua diwedd y gyfrol braidd yn anghredadwy. Cyfrol weddol dda.

Mae'r gyfrol olaf yn well o lawer. Stori gredadwy a gawn yma am ymateb y plant i ddamwain erchyll. Maent yn gweld hofrennydd yn disgyn ac yn gweithredu'n ddewr ac yn gyfrifol yn sgîl hynny. Y tro hwn llwyddodd yr awdur i ysgrifennu o safbwynt y plant ac mae'r gyfrol gymaint yn fwy gwerthfawr oherwydd hynny.

PHILIP WYN JONES.

HANES TAITH I ISRAEL.

Un o'r llyfrau difyrraf a ddarllenais i'n ddiweddar oedd "Crud Ein Cred" gan Gwilym R. Jones. Hanes taith i Israel sydd yma a wnaed gan barti o bobl o dan arweiniad y Parchedig W.I. Cynwil Williams ym 1981.

Mewn arddull syml a didwyll sy'n dod a'r daith yn fyw iawn i ni, disgrifir lleoedd fel Caersalem, Bethlehem a Bethania. Ceir adwaith yr awdur o weld Môr Galilea am y tro cyntaf, a'r wefr a gafodd o sylweddoli ei fod, o bosibl, yn dilyn ôl traed yr Iesu yn llythrennol wrth ymweld â'r Oruwch-ystafell.

Mae'r sôn hefyd am y profiad gwefreiddiol o dderbyn y Cymun Bendigaid wrth Eglwys Mynydd y Gwynfydau a gweld, mewn theatr awyr-agored o gyfnod y Rhufeiniaid, sedd ag enw Pontius Peilat wedi ei gerfio ar ei chefn cerrig. 'Dyma,' medd Gwilym R. "y cysylltiad mwyaf ingol â'r Croeshoeliad......tybed a ddaeth Peilat yma i wylio drama Rufeinig salw ar ôl bod yn un o brif gymeriadau drama fwya'r oesoedd yng Nghaersalem?".


Disgrifir y modd y treuliwyd Dydd Gwener y Groglith yng nghyffiniau Gardd Gethsemane, Bryn Calfaria a'r Bedd Sanctaidd.

Mae hanesion diddorol dros ben yn y llyfryn hwn, ac amheuthum yw cael rhannu profiadau un a edrychodd ar Wlad yr Addewid drwy lygaid bardd. Medd yr awdur, "Profiad ysbrydol grymus oedd cael ymweld â'r lleoedd mwyaf cysegredig yng nghwmni pererinion o gyffelyb fryd... profiad na ellir byth mo'i anghofio".

Mae'r llyfr hwn yn werth ei ddarllen - nid yn unig gan y rhai a gafodd y fraint o ymweld â gwlad Israel ond hefyd gan y rhai ohonom na chafodd y fraint honno. Yng ngeiriau Golda Meir, a ddyfynnir gan yr awdur, "Y mae un ymweliad yn werth mwy na mil o bregethau".

RAY EVANS.

# CLWB IFOR BACH



CALENDR I    BACH
Ffôn: (0222) 32199.

MAWRTH

6 (1) Dosbarth Gwyddeleg
  (2) Cymraeg - Croesi'r Bont
7 Ceilys: Cymric v. Dysgwyr
8 Dosbarth Gwyddeleg
9 Disgo - yn rhad ac am ddim cyn 10.30 i aelodau.
10 Disgo - yn rhad ac am ddim i aelodau - cyn 10.30.
11 Sesiwn Gwerin
13 (1) Dosbarth Gwyddeleg
  (2) Dosbarth Cymraeg
14 Ceilys: Llandaf v. Cymric
15 (1) Dosbarth Gwyddeleg
  (2) Cymdeithas yr Iaith
  (3) Gyrfa Chwist - yr elw at Gymdeithas Tai Gwynedd.
16 Disgo d/o y Clwb Criced + Grwp Gwerin.
17 (1) Merched y Wawr, Rhanbarth De, Canol Morg. a Gwent, am 10.30.
  (2) Lloegr v. Cymru - prynhawn o hwyl o flaen y sgrin.
  (3) Disgo - yn rhad ac am ddim i aelodau cyn 10.30.
18 (1) Clwb Cerdded - Porthceri - Penmarc (Ffôn: 49714)
  (2) Sesiwn Gwerin
19 Cymdeithas Hanes - 'Freud - ei fywyd a'i waith' - Dr. H. Pritchard-Jones.
20 (1) Dosbarth Gwyddeleg
  (2) Dosbarth Cymraeg
21 Ceilys: Y Rhath v. Y Mynydd Bychan
22 Dosbarth Gwyddeleg
23 Caryl Parry Jones a'r Band
24 Meic Stevens a'i Fand
25 Sesiwn Gwerin
27 (1) Dosbarth Gwyddeleg
  (2) Dosbarth Cymraeg
28 Ceilys: Dysgwyr v. Myfyrwyr
29 Dosbarth Gwyddeleg
30 'Gwalarn' - grŵp gwerin o Lydaw.
31 Disgo - yn rhad ac am ddim i aelodau cyn 10.30.

## CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

## CLWB IFOR BACH

## MAI 3ydd am 7.30

Unwaith eto daeth yn amser i'ch annwyl bapur bro gynnal ei gyfarfod blynyddol.Rhag i chi gyd ruthro gyda'ch gilydd rydym yn rhoi digon o rybudd Mae gennych ddeufis i ymgyfarwyddo a'r ffaith.Yn y gorffenol ar wahan i gyfnod euraid y Dyn Dwad,un o ddigwyddiadau mwyaf di-ddigwydd y flwyddyn fu'r Cyfarfod Blynyddol. Gwelwyd mwy o gynulleidfa mewn Sasiwn yn Iran.
Eleni dyma newid lleoliad yn y gobaith o ennyn mwy o frwdfrydedd.Os oes gennych farn i'w lleisio,cyfraniad i'w wneud,awgrym i'w gynnig,dowch! .

# PYTIAU

EGLWYS DEWI SANT, CAERDYDD.

Newydd trist i'r gynulleidfa yn Eglwys Dewi Sant oedd clywed fod eu gofalwyr ffyddlon Mr a Mrs James Fairclough, yn bwriadu rhoi'r gorau i'r gwaith o hyn i ddiwedd Mehefin. Nid hawdd fydd dod o hyd i neb a'r un parodrwydd ac ymroddiad llwyr i'r gwaith â Jim a Doreen, nid yn unig yn eu gofal am yr adeilad ond yn eu presenoldeb bob tro yr oedd drysau Dewi Sant yn agor.

Tybed a oes rhywun yn gwybod am rai a fyddai a diddordeb i ystyried cymryd y gwaith ymlaen? Os felly, gellir cael mwy o wybodaeth am yr amodau a thelerau'r gwaith oddi wrth yr ysgrifennydd,
Mr. J. Alban Dyer,
46 St. Benedict's Crescent,
Y Waun.
(Ffôn: Caerdydd 623102).

EGLWYS DEWI SANT

Ar Nos Sadwrn, Mawrth 24ain., am hanner awr wedi saith cawn y fraint o groesawu cantorion enwog Côr Dyfed i'n plith ar gyfer cyngerdd yn yr eglwys. Fel y gŵyr llawer ohonoch mae aelodau'r côr hwn yn cyfarfod i ymarfer mewn gwahanol ganolfannau yn Ne Cymru a bydd un garfan ohonynt yn dod at ei gilydd yn gyson yn Eglwys Dewi Sant.

Bydd y côr, dan arweiniad Mr. John S. Davies, Abergwaun, yn cyflwyno rhaglen o weithiau arbennig iawn ar y noson uchod. Yn yr hanner cyntaf ceir Te Deum (Haydn), Ave Verum (Elgar), Motets (Bruckner), Dyrchafaf fy Llygaid i'r Mynyddoedd (T. Hopkin Evans) a Zadoc the Priest (Handel). I ddilyn yn yr ail hanner ceir perfformiad o'r Offeren yn D gan Dvorak.

Bydd mynediad trwy raglen yn £2.00 y pen.

MAXWELL EVANS.


Os am
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â

Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal,
Ffôn: Caerdydd 43367




PWYSIG IAWN - Bisiau help i Ddysgwr.

Y mae merch o Lanfair-ym-Muallt, Miss Alison Vaughan - yn dilyn cwrs Wlpan yng Nghanolfan Yr Urdd. Y mae yn ei hugeiniau cynnar a hoffai gael llety yn ardal Pontcanna neu'r cyffiniau, os yw'n bosibl, gyda theulu Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'n byw yn 23 Alfred Street, Y Rhath. Y mae am ddysgu siarad Cymraeg yn rhugl. Byddai llety am dymor byr - am dri mis i ddechrau yn hyfryd iawn, meddai. Mewn gwirionedd, y mae'n gri o'r galon.

Croeso nôl i Dr. a Mrs Alan Shore i'r brifddinas. Mae Alan ac Elizabeth wedi symud o Benyffordd i ymgartrefu yn Mountbatten Close. Ers iddynt adael Caerdydd rhyw bedair blynedd yn ôl daeth ychwanegiadau i'r teulu a bydd ysgol feithrin y Waun yn falch o groesawu Angharad a Rhodri i'w plith ymhen ychydig amser. Cofir am Elizabeth yn gweithio fel Health Visitor ym Mhenarth a Dinas Powys. Dysgodd Alan Gymraeg yn y Ganolfan a bu'n aelod [illegible] o Gyngor Cwm Rhymni am rai blynyddoedd.

UNDEB CELTAIDD CYLCH CAERDYDD

Dechreuwyd Cylch Caerdydd o'r Undeb Celtaidd gyda'r Calan a phenodwyd swyddogion dros dro. Cefnogi ymdrechion yr Undeb, sef datblygu cysylltiadau ymysg y gwledydd Celtaidd, fydd pwrpas y Cylch.

Yn y cyfarfod cyntaf, penderfynwyd trefnu nosweithiau cerddorol a gŵyl ffilmiau yn ystod y misoedd i ddod.

Bydd y Cylch yn cwrdd bob mis yng Nghlwb Ifor Bach. Croeso i bawb sydd â diddordeb.

Cysylltiwch â'r swyddogion isod am wybodaeth:-

YSGRIFENNYDD: Gareth ap Siôn, (34387)

TRYSORYDD: Hywel Merfyn, (625064)

SWYDDOG Y WASG: Leigh Verrill-Rhys, (42891)

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Aled ac Afryl Glynne Davies ar enedigaeth eu merch fach gyntaf - Gwenllian.

# MARATHON

Yn brysur yn paratoi ar gyfer ras Marathon Llundain ym mis Mai mae pedwar o selogion dosbarth Cadw'n Heini Glantaf sef Lloyd Evans, John Evans, John Cynon Davies a Heddwyn Richards. Ar hyn o bryd maent i'w gweld yn rhedeg o gwmpas Radur am chwech y bore ar ddau neu dri bore bob wythnos.




Wele un o'r uchod yn gweithio ar ei steil.


HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD



Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*


Dylid anfon y cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'r Golygydd, 139, Fairwood Rd, Llandaf cyn 17eg o Fawrth.

# STEDDFOD YR URDD

Mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaen ar gyfer Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd yn 1985. Bydd y Seremoni Cyhoeddi ar ddydd Sadwrn y 19eg o Fai.


Mae nifer o nosweithiau wedi'u trefnu yn yr wythnos cyn y cyhoeddi:

Mai 15fed: Twmpath/Disco yng Nghanolfan yr Urdd.

Mai 16eg: Noson Roc yn Neuadd Dewi Sant

Mai 17eg: Cyngerdd y Cyhoeddi eto yn Neuadd Dewi Sant.

Gobeithio y cawn ragor o fanylion am yr holl weithgareddau yn gysylltiedig ag Eisteddfod 1985 yn y rhifyn nesaf.



MEHEFIN 22, 1984.

Nodwch y dyddiad. [illegible]

Dawns Fawreddog Eisteddfod yr Urdd, 1985 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Trefnwch fwrdd i chi a'ch ffrindiau. 10 i 12 ar bob bwrdd.

Tocynnau: £15 yr un.

Ffoniwch Caerdydd 626190
(John Walter)

Caerdydd 594375
(Merfyn Jones)

yn fuan i sicrhau bwrdd – mae nifer eisoes wedi'u llenwi.

Brysiwch – bydd yn noson i'w chofio!

Pur anaml y trefnir noswaith o'r fath i Gymry Caerdydd oherwydd costau uchel. Go brin y trefnir un arall mewn cysylltiad ag Eisteddfod yr Urdd. Ein gobaith yw codi swm sylweddol i goffrau'r Eisteddfod mewn noson gymdeithasol safonol. Dewch felly i gefnogi ac i fwynhau.

# NOSON Y DINESYDD

Mae'n amlwg nad oedd llawer ohonoch un ai yn gwybod neu yn cofio am ein hymdrech flynyddol i chwyddo coffrau prin 'Y Dinesydd'. Rhyw hanner cant ddaeth i'r Neuadd gysurus a glan yn Rhiwbeina - a thros ddwsin o'r rheiny yn aelodau o'r pwyllgor a'u partneriaid. Diolch i'r ffyddloniaid am ein cefnogi ar noson hegar o oer, a'r eira'n disgyn fel roedd pawb yn cyrraedd.

Ar noson mor oer, addas iawn oedd y fwydlen, sef cawl cennin cartra a bara garlleg. Oherwydd prinder selogion fe gafodd y sawl a ddaeth eitha bargen, ac fel Oliver Twist, yn ol am fwy y daeth llawer. Diolch i ferched y gegin am baratoi'r arlwy ac am weinyddu wrth y byrddau.

Tra'n mwynhau mins peis aed ati i werthu tocynnau raffl ddaeth ag oddeutu £40 o elw, gan mai rhoddion oedd y gwobrau i gyd. Yn dilyn cymerodd John Albert Evans yr awennau ac fe gafwyd Noson Lawen go iawn yn y dull traddodiadol - pawb yn cyfrannu ar gan neu'n ymateb i gwestiynnau a rhigymau pur dywyll gan John. Diolch i bawb ymunnodd yn ysbryd gartrefol y noson. Cafwyd hwyl garw yn ymateb i her Arfon Williams ar y limerig a'r frawddeg o lythrennau 'Y Dinesydd'.

Do, fe gafwyd noson hwyliog, hapus agos atoch chi, ac yn gymdeithasol bu'n llwyddiant mawr. Trueni serch hynny nad allwn ddenu mwy i'n cefnogi. Faint o Ddinasyddion Cymraeg Caerdydd sydd am i'r papur ffynnu? Ai 'styfnigrwydd y criw bach sy'n mynnu einioes ein papur Bro? Fe hysbysebwyd y Parti ar dudalen flaen y Dinesydd a'r Helo Bobol ac ar Stondin Sulwyn. Beth yn fwy allwn ni ei 'wneud?

"Fy mwyn gyfeillion dewch ynghyd
Mewn pryd i achub Y Dinesydd"

**********************

# LLYTHYR CÂS

Annwyl Syr,

Mae'n rhaid i mi roi pin ar bapur i gyfleu fy siom o ddiwyg a safon y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd. O gofio mai hwn oedd tad y "diwygiad papurau bro" yn nechrau'r saithdegau mae'n drist bellach orfod cofnodi fod y Dinesydd wedi cyrraedd safon aruchel papurau dichwaeth megis y South Wales Echo a'r Faner. Mae golygydd y naill yn Saisgarwr cyfoglyd a'r llall yn genedlaetholwr unbenaethol hollol ddiddychymyg a bas. A'r Dinesydd yntau yn rhywle rhwng y ddau begwn - syrthio rhwng dwy stôl ac yn ddim byd i neb yn y diwedd. Pam o pam na chawn erthyglau difyr yn trin a thrafod bywyd yn y brif ddinas fawr yma yr ydym yn byw ynddi - sôn am bobl go-iawn a'u bywyd bob dydd yn hytrach na'r Clybiau Ciniawa bondigrybwyll sydd yn agored i griw dethol o'r gymdeithas sydd yn byw mewn cilcyn bychan o'r ardal. Beth am fwy o glecs o du cefn

(i tud 11)

# TORTH O FARA

Bydd adroddiad newydd ar gael i'r cyhoedd yn fuan wedi ei baratoi gan Swyddfa Effeithlonrwydd Ynni. Mae'r llyfryn hwn yn adroddiad annibynnol ar gostau cynhesu eich tŷ a'r dŵr poeth gan ddefnyddio gwahanol fathau o danwyddau a systemau gwresogi.

Amcan y llyfryn yw rhoi cymorth i bobl ynglŷn â phrynu system newydd i gynhesu'r tŷ am y tro cyntaf; prynu darpariaeth cynhesu newydd ar gyfer ystafell fyw neu ddŵr poeth; neu wella/ ailosod y system wres bresennol.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos y cynilo a ellir ei wneud wrth ddefnyddio gwahanol fathau o ynysiad arbed gwres ac yn ateb rhai cwestiynau cyffredin ar ddefnyddio systemau gwresogi mor rhad ac effeithiol ac sy'n bosibl.

Yn y llyfryn ceir tablau sy'n dangos costau cyfalaf a'r costau blynyddol a delir am wres canolog a dŵr poeth mewn chwe gwahanol fath o dŷ gan ddefnyddio nwy, trydan, olew, nwy potel (propane), glo neu baraffin. Dangosir hefyd amcan o'r traul pan yn cynhesu ystafell fyw, heb wres canolog a chostau cynhesu dŵr mewn system arwahân.

Rhoddir manylion clir yng nghefn y llyfryn ynglŷn â'r ffordd mae'r swyddfa Ynni wedi amcangyfrif y costau gan ddangos ar beth maent yn sylfaeni eu ffigyrau,

e.e. y tymheredd yn y tŷ, faint o oriau y defnyddir gwres, lefel o ynysiad yn y tŷ, a gwres y dŵr poeth. Hefyd ceir manylion am wahanol ffyrdd o ynysu y tŷ ac enghreifftiau o beth fyddai'r gost o fenthyg arian i dalu am system wresogi neu ynysiad. Rhoddir gwybodaeth clir am wahanol danwyddŵy lle mae eglurhâd o sut mae nwy a thrydan yn cael eu mesur; pa fath o wasanaeth sydd angen ar y system, unrhyw gostau ychwanegol i'w wneud a'r system a ddewisir a diogelwch pan yn ei defnyddio (e.e. nwy).

Credaf bod y llyfryn wedi cael ei baratoi mewn ffordd clir sy'n hawdd i'w deall. Nid yw'n ceisio rhoi gormod o wybodaeth sy'n anodd i'w ddarllen na'n cymryd gormod o amser i'w ddehongli. Fel y gwelir o'r engraifft yma o'r llyfryn, olew a 'propane' yw'r tanwyddau drytaf, mae glo tipyn rhatach gyda nwy a trydan yn gyfartal iawn. Gwelir hefyd bod ynysiad gwagle wal yn ffordd dda i ostwng costau cynhesu'r tŷ ac mae'n talu am ei hunan mewn amser eithaf byr. Yn ddiweddar mae gwelliant mawr wedi bod yn y pelydryddau storio trydan, gellir rheoli'r ffordd maent yn rhoi gwres allan i'r ystafell yn y modelau diweddaraf. Mae'n rhaid ystyried yn ofalus pob datblygiad newydd cyn dewis neu newid system cynhesu.

Os gwelwch yr adroddiad cymerwch gopi (byddant i'w cael am ddim). Efallai cewch gyngor gwerth ei gael ynddo fydd i'ch mantais.

PRIFYSGOL CYMRU

Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion

Cwrs Hyfforddi Athrawon Ail-iaith

(addas ar gyfer rhai sy'n gobeithio cymryd dosbarthiadau yn yr Hydref)

BOB NOS IAU

10fed Mai – 5ed Gorffennaf

4.30 – 6.00 p.m.

Manylion o:-

21 Park Place,
Parc Cathays,
Caerdydd CF1 3DQ.

Ffôn:- 390980.

DIRWY.

Cafodd Siân Edwards, cyn-olygydd Y Dinesydd, ddirwy o £10 gan Ynadon Newbury ar Chwefror y 15ed, ar gyhuddiad o rwystro trafnidiaeth ar y ffordd y tu allan i Faes Milwrol Comin Greenham. Digwyddodd y drosedd honedig drannoeth dyfodiad taflegrau Cruise Americannaidd i'r Maes Milwrol yn ôl ym mis Tachwedd. Gwadodd Siân y cyhuddiad. Nid yw hi ond un o nifer o Gymry sy'n mynd i Gomin Greenham yn aml i dreulio cyfnod yn y Gwersyll Heddwch.

COSTAU CYNHESU TŶ AR WAHAN (DETACHED) A'R DWR POETH

| SYSTEM | COSTAU SYSTEM NEWYDD | | COSTAU BLYNYDDOL I REDEG | | FAINT O FLYNYDDOEDD GYMERIR I'R YNYSIAD DALU AM EI HUNAN |
|---|---|---|---|---|---|
| | AR BEN EI HUNAN | GYDA YNYSIAD GWAGLE WAL | HEB YNYSIAD WAGLE WAL | GYDA YNYSIAD GWAGLE WAL | |
| Olew (9 rheiddiadur) | £2,110 | £2,460–£2,640 | £626 | £481 | 3 – 4 blwyddyn |
| Propane (9 rheiddiadur) | £1,850 | £2,200–£2,380 | £701 | £547 | 3 – 4 blwyddyn |
| Glo – tân amgauedig (9 rheiddiadur) | £1,462 | £1,812–£1,992 | £392 | £312 | 5 – 7 blwyddyn |
| Nwy (9 rheiddiadur) | £1,660 | £2,010–£2,190 | £366–£406 | £285–£325 | 5 – 7 blwyddyn |
| Trydan (gan ddefnyddio 'Mesurydd gwyn') | £1,475 | £1,765–£1,945 | £464–£471 | £337–£344 | 5 – 7 blwyddyn |

# NEWYDDION

PENARTH A'R CYLCH

Cafwyd prysurdeb mawr ymhlith y Cymry yng nghylch Penarth yn ddiweddar a bydd y prysurdeb hwnnw'n parhau am beth amser eto. Ar y nos Sadwrn olaf yn Ionawr cafwyd cefnogaeth dda iawn i Dwmpath a Swper a gynhaliwyd yn Neuadd y Paget, Penarth a sylweddolwyd elw da i gronfa Eisteddfod yr Urdd, 1985 mewn canlyniad i'r ymdrech. Daeth Rhodri Jones i alw, a chyda'i ddawn arferol llwyddodd i gael hyd yn oed yr hynafgwyr i prancio yn ystod y noson.

Ar Nos Lun cyntaf Chwefror daeth Cymdeithasau Dinas Powys a Phenarth at ei gilydd mewn noson o gwis ysgafn. Gosodwyd y tasgau gan Dilwyn Samuel, Cadeirydd Dinas Powys yn cael ei gynorthwyo gan Peter Davies, Ysgrifennydd y gymdeithas honno! Peter hefyd oedd yn cadw'r sgor, ond ar waethaf hyn, a'r ffaith eu bod yn chwarae oddi cartref, Penarth oedd yn fuddugol.

Yr wythnos wedyn aeth timau o Benarth a Dinas Powys i lawr i herio holl nerth y Barri. Maxwell Evans, Penarth, oedd yr holwr di-duedd y noson honno mewn cystadleuaeth "Pawb yn ei Dro". Penarth oedd yn drydydd, Dinas Powys yn ail, a'r Barri, am unwaith, ar y brig!

Edrychwn ymlaen nesaf at ein ciniawau Gŵyl Dewi. Bydd Cymdeithas Penarth yn cael eu cinio yng Ngwesty'r Glendale, Penarth ar Nos Fercher, Chwefror 29ain., a'r gŵr gwadd fydd Mr. Illtyd Lewis. Ar y Nos Iau, Mawrth 1af bydd cinio Dinas Powys, yng Nghanolfan Adloniant y B.P., Y Sili, a'r gŵr gwadd yno fydd Dafydd Hywel. Disgwylir gweld Neuadd y Paget, Penarth, yn llawn hyd yr ymylon ar Nos Fercher, Ebrill 4ydd. Y noson honno bydd Band Pres Bedwas, Trethomas a Machen yn rhoi cyngerdd, a chenir Unawdau gan Janis Jones, Soprano. Trefnwyd y Noson gan y Gymdeithas Gymraeg a bydd yr elw yn mynd tuag at ymchwil yr arennau. Mae tocynnau (£1.50) ar gael oddi wrth Maxwell Evans, Ysgrifennydd Cymdeithas Gymraeg Penarth.

Dymuna'r Dinesydd ddiolch am gymorth hael Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig.

## BYD Y BOL

Bwytai Tseineaidd Riverside.

Un o'r profiadau difyrraf a gefais erioed oedd mynd yn griw mawr iawn o bobl i fwyty Tseineaidd y Riverside yn Tudor Street. Lle digon anniben yr olwg o'r tu allan yn Chinatown Caerdydd, ond wrth ddringo'r grisiau fe welwch ysblander cerfluniau Tseineaidd coch ar hyd y parwydydd a'r bar godidog yn y gornel gyda'r peintio a'r addurniadau coeth. Nid bwyty cyffredin mo hwn. Fy unig brofiad o fwyd Tseineaidd cyn hyn oedd Foo Yung a Chop Suey a flied lice yn y Take Away. Peidiwch a gadael i unrhyw atgof drwg am brydau take away diflas eich rhwystro rhag mentro i'r Riverside am bryd. A mentro oedd hi hefyd. Doedd dim llawer o syniad gen i beth oedd yr holl wahanol fwydydd ar y menu ac roedd y tudalennau a thudalennau o wahanol seigiau porc, hwyaden, eidion, prawn ac ati yn ddigon i godi braw ar unrhyw un. Felly fe ddewison ni'r llwybr rhwyddaf - dewis y set menu. Fe gyrhaeddodd y bwyd dewisiedig - y "barbecued spare ribs" i ddechrau. Saws tu hwnt o flasus ond saig oedd yn gadael ei ol ar hyd eich bysedd a'ch gwefusau. Diolch byth am y fowlen fach o ddwr cynnes a'r lliain bach i sychu eich swchau.

Wedyn daeth y llu o seigiau amrywiol - rhyw chwech neu saith i gyd. Allai ddim cofio yn union beth oedd popeth ond y syniad yw cael un saig o bob math o gig neu bysgod. Roedd y prawns mewn nyth yn hyfryd - na nid nyth o frigau a mwsog ond rhywbeth oedd yn edrych fel porfa "crunchy". Rhai o'r seigiau eraill yw porc melys a sur, eidion a madarch a hwyaden a bamboo shoots. Fe gewch fowlen fach o reis ac wedyn gellwch helpu eich hun i'r gwahanol seigiau - un ar y tro - a'u bwyta gyda'r reis gan ddefnyddio'r chopstics, os ych chi'n fentrus, neu gellwch chi ofyn am fforc.

Does dim eisiau cyllell o gwbl gan fod y darnau bwyd yn ddigon bach. Mae'r platiau gweini yn cael ei gadael ar stands bach sy'n eu cadw yn gynnes felly gellwch fwyta pryd hamddenol heb boeni a fydd y bwyd yn oeri. Dyw'r Tseineaid ddim yn rai am fwyta pwdin, neu saig melys ond mae na ddewis o sorbet neu gacennau bach Tseineaidd i orffen ac yna te blodau jasmine. Mae na ddau fwyty Riverside yng Nghaerdydd - y Mandarin yn Wood Street, ger yr orsaf bysiau, a'r un Cantonese yn Tudor Street. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y ddau i leygwr fel fi, ond mae'n siwr fod yna wahaniaethau yn y coginio. Wrth ddewis y set menu gellir cael pryd sylweddol am rhyw £6 gyda gwin yn ychwanegol, ond po fwyaf o bobl sydd 'na rhataf i gyd mae pris y pryd. Felly beth amdani - mentrwch nawr i ddathlu blwyddyn newydd y Tseineaid - fis yn hwyr!!

---

(o tud 9)

i seti pren y capeli a beth am fentro i mewn i ystafell athrawon ambell i ysgol am unarddeg rhyw fore.Beth am grwydro o fewn coridorau'r Swyddfa Gymreig a thu ôl i far Clwb Ifor Bach.Beth am stelcian


yn nhai bach Neuadd Dewi Sant a beth am rowlio yng ngwteri Bute Street wedi'r hanner nos?Agorwch eich llygaid a dowch â'r gwirionedd i ni - ar frys -cyn y bydd darllenwyr y Dinesydd wedi cyrraedd yr un nifer isel ag sy'n darllen y Faner.

Yn gywir

G.Galchog

Gol.Wel,ia! Beth amdani? Wyddon ni ddim i ba un o'r cylch/oedd amheus uchod y perthyn Mr Galchog ond os down ar ei drawsy tu ôl i far yn Neuadd Dewi Sant neu yn stelcian mewn tŷ bach yn y Swyddfa Gymreig byddwn yn siŵr i'w drythyllwch drewllyd a'i lygredigaeth aflan.Yn y cyf-amser boed iddo ddal i wneud ei bethau - a gobeithio y daw i'r Cyfarfod Blynyddol.

# Y CROESAIR – Ap Lewsyn RHIF 40



CROESAIR RHIF 40.

AR DRAWS:

1. Agwedd difanars chwe S.N.A. arfog, afreolus. (11)

6. Mae'r hen ŵr mwyn yn dal i wrando hwn yn ffrwtian dan garreg yr aelwyd. (3)

8. Mae'r stori amdano yn padlan ei gasw i'r trobwll mawr yn rhannol gelwyddog. (5)

10. Yr hyn a wna fy nghymdeithion a minnau. (9)

11. Tir hwn oedd rhwng y ddwy fyddin yn y Rhyfel Mawr. (3)

12. Trigfan y brodyr, neu cartre'r sistersiaid? (5)

13. B.A. miniog ei feddwl a luniodd y chwedlau. (8)

16. Ni chadd y gŵr trofaus flewyn glasach draw. (7)

17. Ergyd i un o Gwm Tawe. (4)

18. Priodol oedd i Adda fynd i'r Sowth. (4)

19. Un o'r adnodau ar ôl y salm olaf o flaen y pregethwr. (7)

21. "Llawlyfr Moliant" yr Annibynwyr. (8)

23. Ymlusgiad sydd yn cuddio yn ei droellion ei hun. (5)

26. "Nid wrth ei —— mae nabod cyffylog". (3)

27. Hwyr. (5,4)

28. Allwedd sydd wedi ei thalfyrru a'i threiglo yn anghywir gan y Gwyneddigion. (5)

28a. Prifddinas twt Brasil. (3)

29. Pennaeth byr y papur wedi sgorio? (3)

30. Morthyn llengar gwyllt heb fedru darllen, -ER uwchben ei ddigon. (11.)

I LAWR:

1. Dygwyd eiddo i dalu dyled imi o flaen y tân. (10)

2. a 25. Down yn gyfoethog wrth foliannu? (2,5,5,3,1,3)

3. Bannod bregus aflonydd yn creu pysgod lliwgar. (7)

4. Gwyntylla. (5)

5. Chwech N yn sillafu dymuno. (7)

6. O ie, gardd gudd i'r dyn sy'n rhoi trefn ar griw cynffonnog yr athrofeydd. (3,1,11)

7. Uned sy'n llithio yn ôl. (4)

9. Llidiart sydd yn cloi etifedd y fferm allan. (3)

13. Dwyn ham i gael hyfrydwch cyffrous. (7)

14. Sŵn y disco a'n ———— wrth i ni nesu at y drws. (10)

15. Fe gei deg crys addas i gael diwyg sanctaidd. (10)

19. "———— – thrugaredd yn ddiau a'm canlynant". (6,1)

20. Yn blygeiniol. (3,4)

22. Mae yna fôr yn gwahanu'r ddwy y sydd byth yn dod. (5)

24. Mae ei rin yn dwyn ffrwyth. (5)

25. Gweler 2.

DATRYSIAD RHIF 39.

AR DRAWS: 1. LLANARMON YN IÂL; 10. SATANIAID; 11. SALEM; 12. WSDYN; 13. ARALLEIRIO; 14. NAWFED ACH; 16. ACHRESI neu ACHLENI; 19. GADARA; 20. DECHREUAI; 22. NAWDDOGAETH; 24. CWEIR; 25. EGINA; 26. TRAETHADWY; 27. Y NESAF PETH I DDIM.

I LAWR: 2. ALLTUDIWYD; 3. ANNWN; 4. NI ADAWAF; 5. NODIAD; 6. NOS FERCHER; 7. AFLER; 8. ASGWRN Y GYNNEN; 9. ANHOSIBILRWYDD; 15. [illegible]; 17. ELUSENDAI; 18. [illegible]; 21. HALLTAF; 23. ANION; 24. CATH NI.

CYSTADLEUAETH RHIF 39.

Daeth 19 datrysiad i law, deunaw ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a ddaeth o'r het y tro hwn oedd John Hughes, 24 Solva Avenue, Llanishen. Mae'r tocyn llyfrau Cymraeg am £5 ar ei ffordd iddo.

Y datryswyr llwyddiannus eraill oedd:- B.H. Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; D.J.W., Pentwyn; Robin Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd; Maxwell Evans, Penarth; A.R.R., Abertawe (dysgwr yn ôl ei nodyn); K. Davies, Canton; B.T., Cyncoed; Mrs Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Mrs J. Lloyd, 134 Lake Road East; Delyth Evans, 131 Clodien Avenue; S. Evans, 21 Gerddi Gelligaer; Gwynn Tudno, Casnewydd; R. James, Yr Eglwys Newydd; Tecwyn Vaughan Jones, Y Tyllgoed; "Prentis", Trelai; Siân Emlyn, Cyncoed.

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Ysgrifennwch eich enw (neu ffugenw), a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon erbyn Mawrth 20fed at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

Diolch i Carol Davies am deipio'r rhifyn hwn o'r Dinesydd.